Llywio Lleyn Group

Factfile:

- 200 acres of wet farmland classified as an SDA at Tŷ Cerrig near Garndolbenmaen, Gwynedd
- 250 Lleyn ewes
- Retain 110 of the best ewe lambs each year

Arfon began recording his Lleyn flock in the 1980s to help get rid of the ewes that weren't rearing lambs with a good enough carcass classification. They had noticed that some of their show sheep weren't producing good lambs, whereas some of the more commercial ewes in the flock were rearing good lambs.

He became a founder member of the Llywio Lleyn Group which was set up seven years ago. Since then they have been able to make considerable progress, monitoring and selecting only those animals that are producing the goods.

The Group's policy is to use the highest EBVs whilst still ensuring that they keep true to type. By using figures, alongside traditional selection techniques they usually manage to keep animals from the top 10% of their breed.

Of course the results of genetic improvement haven't been seen overnight, and it has taken four years to get rid of poor ewes and for the Group to build upon a foundation of figures. However, now that they have been recording for a number of years they are seeing a big difference in the quality of their finished lambs.

The Lleyns have been very successful for the Hughes' so far and the females are worth considerable sums. However, according to Arfon if they are really going to make the most from their flock, they need to produce the right kind of males on the hook. "Performance recording helps us to meet the market needs. Before starting to record we had a lot of lambs coming back with R & O carcass classification gradings but now for the first time have had U & R grades as well as increased weights."

On average 2004 finished lambs weighed 16.8kg dead weight and a third of the lambs not reaching the target specification of at least R3L.

In 2005 over 90% achieved R3L, and over half of these achieving a U classification. The average deadweight has risen to around 19.5 Kg - an improvement of 2.7kg, a benefit of over £5 / lamb.

Performance recording does require attention to detail and a move away from selecting purely on type. Arfon doesn't claim to fully understand the detail of the technology yet, but the more they use it the more useful they are finding it and the financial rewards are certainly beginning to pay off.

With almost 2000 recorded ewes in the Group, the potential value of recording is substantial.

The Llywio Lleyn Group chose to use a Welsh Index to improve maternal ability as well as lamb growth rate and carcase value.

Caiff y Rhaglen Datblygu Defaid a Chig Eidion, a gaiff ei rhedeg gan Hybu Cig Cymru, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 a 2 EUROPEAN UNION OBJECTIVES 1 & 2

The Sheep and Beef Development Programme, run by Hybu Cig Cymru, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect.

February 2007

Grŵp Llywio Lleyn

Ffeil Ffeithiau:

- 200 erw o dir amaethyddol gwlyb a ddynodwyd yn Ardal dan Anfantais Difrifol, yn Nhŷ Cerrig ger Garndolbenmaen, Gwynedd
- 250 o famogiaid Defaid Llŷn
- 110 o'r ŵyn benyw gorau yn cael eu cadw bob blwyddyn

Dechreuodd Arfon gofnodi ei ddiadell o ddefaid Llŷn yn y 1980au er mwyn cynorthwyo i gael gwared ar famogiaid nad oedd yn magu ŵyn â dosbarthiad carcas digon da. Roedd y teulu wedi sylwi nad oedd rhai o'u defaid arddangos yn cynhyrchu ŵyn da, er bod rhai o'r mamogiaid mwyaf masnachol yn magu ŵyn gwirioneddol dda.

Daeth yn sylfaenydd Grŵp Llywio Llŷn a sefydlwyd saith mlynedd yn ôl ac oddi ar hynny mae'r Grŵp wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan fonitro a dewis 'mond yr anifeiliaid hynny sy'n perfformio'n dda.

Polisi'r Grŵp yw defnyddio'r Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV) uchaf gan sicrhau nad ydynt yn bradychu'r teip. Trwy ddefnyddio ffigurau ochr yn ochr â thechnegau dewis traddodiadol, fel arfer byddant yn llwyddo i gadw at anifeiliaid o blith 10% uchaf y brid.

Wrth gwrs, ni welwyd canlyniadau'r gwelliant genetig dros nos, a chymerodd bedair mlynedd i gael gwared ar famogiaid gwael ac i'r Grŵp adeiladu ar sail ffigurau. Fodd bynnag, ar ôl bod yn cofnodi am nifer o flynyddoedd maent yn gweld gwahaniaeth mawr yn ansawdd eu hŵyn wedi pesgi.

Mae'r defaid Llŷn wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r teulu Hughes hyd yma ac mae'r anifeiliaid benyw'n werth arian sylweddol. Eto i gyd, yn ôl Arfon, os ydynt i wneud y gorau o'u diadell, rhaid cynhyrchu'r math iawn o ŵyn gwryw ar y bach. "Mae cofnodi perfformiad yn ein cynorthwyo i ddiwallu anghenion y farchnad. Cyn dechrau cofnodi roedd llawer o'r ŵyn yn dod yn ôl â graddau dosbarthu carcas R ac O, ond nawr am y tro cyntaf cawsom raddau U ac R yn ogystal â phwysau uwch."

Roedd ŵyn tew, ar gyfartaledd, yn 2004 yn pwyso 16.8kg pwysau marw gyda un rhan o dair o'r ŵyn yn methu cyrraedd y targed o oleiaf dosbarth R3L.

Yn 2005 llwyddodd 90% i gyrraedd targed dosbarth R3L a llwyddodd dros hanner yr rhain i gyrraedd dosbarth U. Cynyddod cyfartaledd pwysau marw i odduetu 19.5kg, gwelliant o 2.7kg a budd o £5 yr oen.

Mae cofnodi perfformiad yn ymofyn rhoi sylw i fanylion a chefnu ar ddewis ar sail y teip yn unig. Dydy Arfon ddim yn hawlio ei fod yn llwyr ddeall fanylion y dechnoleg eto, ond po fwyaf o ddefnydd a wneir o'r dechnoleg y mwyaf defnyddiol yw hi ac maent yn dechrau elwa ar y manteision ariannol.

Gyda bron i 2000 o famogiaid wedi'u cofnodi yn y Grŵp, mae gwerth potensial y cofnodi'n sylweddol.

Mae Grŵp Llywio Llŷn yn dewis defnyddio Mynegrif Cymreig i wella rhinweddau mamol yn ogystal â chyfradd twf yr ŵyn a gwerth y carcas.

Caiff y Rhaglen Datblygu Defaid a Chig Eidion, a gaiff ei rhedeg gan Hybu Cig Cymru, ei rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswllt Ffermio.

The Sheep and Beef Development Programme, run by Hybu Cig Cymru, is managed by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect.

Chwefror 2007